Mark Drakeford AM/AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

27 Mawrth 2017

Annwyl John

Yn fy sesiwn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 9 Mawrth, addewais y byddwn yn ysgrifennu at y Pwyllgor unwaith y byddwn wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ynglŷn â gwahardd defnyddio gweithwyr asiantaethau yn lle gweithwyr sy'n gweithredu'n ddiwydiannol, ac unwaith y byddwn wedi penderfynu sut i fwrw ymlaen â'r mater.

Fel y gŵyr y Pwyllgor, cynhaliodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2015 ar gynnig i ddirymu Rheoliad 7 o Reoliadau Cynnal Asiantaethau Cyflogaeth a Busnesau Cyflogaeth 2003. Mae Rheoliad 7 yn gwahardd busnesau cyflogaeth rhag darparu gweithwyr dros dro i gymryd lle gweithwyr sy'n gweithredu'n ddiwydiannol. Er nad yw Llywodraeth y DU wedi gweithredu eto yn dilyn yr ymgynghoriad, pe bai yn dirymu'r rheoliad, byddai hynny'n gymwys i weithredu diwydiannol gan weithwyr ym mhob sector, gan gynnwys gweithwyr a gyflogir yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Ym mis Medi 2016, cyhoeddais ymgynghoriad er mwyn gofyn a ddylai'r sefyllfa gyfreithiol barhau fel y mae yng Nghymru – h.y. cadw'r sefyllfa lle nad yw awdurdodau Cymreig datganoledig yn cael defnyddio gweithwyr dros dro yn lle staff sy'n gweithredu'n ddiwydiannol. Byddem yn cyflawni hynny drwy wahardd yr awdurdodau eu hunain rhag defnyddio gweithwyr asiantaethau, gan gyflwyno rheoliad â'r un effaith â Rheoliad 7, sy'n gymwys i fusnesau cyflogaeth.

Ar ôl yr ymgynghoriad, rwyf wedi penderfynu cyflwyno gwelliant gan y Llywodraeth yng Nghyfnod 2 i gadw'r sefyllfa fel y mae, lle mae awdurdodau cyhoeddus Cymru yn cael eu gwahardd rhag defnyddio gweithwyr asiantaethau yn lle gweithwyr sy'n gweithredu'n ddiwydiannol. Pe bai Llywodraeth y DU yn penderfynu dirymu Rheoliad 7, byddai effaith gwneud hynny yn gymwys i bob cyflogwr arall yng Nghymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir

Mark Drakeford AC/ AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government